# Siarter Iaith - Rhagair

Mae'r Siarter Iaith bellach ar waith mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ledled Cymru. Nod y Siarter yw ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Mae'r Siarter Iaith i bawb a gall pob aelod o gymuned yr ysgol gymryd rhan. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Fframwaith ddiwygiedig fel canllaw i weithredu'r siarter.

Gan ddefnyddio Fframwaith y Siarter Iaith, mae angen pennu targedau tymor byr, canolig a hirdymor er mwyn sicrhau twf ar draws yr ysgol a'r clwstwr yn y blynyddoedd i ddod. Mae cydweithio ar bob lefel o fewn y gymuned yn allweddol, ac mae'n rhaid sicrhau bod y rhanddeiliaid oll yn gweithio tuag at yr un amcanion uchelgeisiol gan ymrwymo'n llawn i'r nod.

Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn cynnwys holl gymuned yr ysgol wrth weithredu'r Siarter Iaith yn cynnwys disgyblion, yr holl weithlu, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Dylai ysgolion hefyd wneud pob ymdrech i gydweithio gydag ysgolion eraill o fewn eu clwstwr neu'r sir, yn ogystal ag ymdrechion penodol i weithio gyda chydlynwyr perthnasol er mwyn sicrhau dilyniant a llwybr di-dor o gefnogaeth i ddisgyblion.

Nod y ddogfen hon yw edrych ar ddisgwyliadau a chynnig llwybrau posib o fewn Fframwaith y Siarter Iaith ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ni ddylid defnyddio'r rhain fel rhestr wirio ond yn hytrach sbardunau wrth i chi ysgrifennu eich cynllun gweithredu.

**Rhan 1** - Braslun o ddisgwyliadau'r gwobrau

**Rhan 2** - Llwybrau posib o fewn yr amcanion

## GWOBR EFYDD

Mae bron pawb yng nghymuned yr ysgol yn **deall yr amcanion** ac yn **ymwybodol o weledigaeth** y Siarter Iaith. Mae'r ysgol wedi **adeiladu sylfaen** a mecanwaith cryf ar gyfer gweithredu'r Siarter sy'n **cynnwys rhanddeiliaid** ar draws cymuned yr ysgol. Mae'r ysgol wedi llunio cynllun gweithredu addas ac yn **dechrau gweld effaith** y gweithredu yn yr amcanion.

## GWOBR ARIAN

Mae bron pawb o gymuned yr ysgol yn deall **pam** y gweithredir y Siarter. Mae'r **staff cyfan** yn rhan o'r cynllunio, gweithredu a'r monitro. Mae cymuned yr ysgol yn medru cynllunio gweithredoedd addas mewn ymateb i ganlyniadau'r holiaduron ac yn medru **mesur llwyddiant a chynnydd** y gweithredoedd yma. Mae dysgwyr, **gyda chymorth, yn arwain gweithredoedd** yn llwyddiannus. Mae bron pawb yng nghymuned yr ysgol wedi datblygu ymdeimlad o falchder yn eu hunaniaeth Gymreig ac wedi magu brwdfrydedd dros yr iaith. Mae gweithredoedd yn **dechrau** cael effaith ar arfer amser hamdden y dysgwyr e.e. dewis defnyddio apiau, teledu, chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol ayb. Ceir **ethos Cymraeg a Chymreig** o fewn yr ysgol.

## GWOBR AUR

Mae cymuned yr **ysgol gyfan yn llysgenhadon** dros y Gymraeg a'i defnydd ac yn hyrwyddo nodau'r Siarter Iaith yn llwyddiannus i wireddu gweledigaeth yr ysgol. Mae **holl rhanddeiliaid** yr ysgol yn allweddol wrth gynllunio, gweithredu a monitro'r Siarter Iaith. Mae cymuned yr ysgol gyfan yn gallu cynllunio camau gweithredu hynod effeithiol mewn ymateb i ganlyniadau holiadur blynyddol. Mae bron pob un o'r staff yn gallu **mesur llwyddiant a chynnydd** yn llwyddiannus a chymryd y camau angenrheidiol i wireddu'r weledigaeth. Mae dysgwyr yn cefnogi eu cyfoedion yn llwyddiannus **trwy arwain** ystod eang o fentrau.

Mae'r ysgol wedi **datblygu ethos Cymreig cryf** sy'n crisialu popeth Cymreig ac yn **annog balchder yn hunaniaeth a brwdfrydedd y dysgwyr dros yr iaith** ac yn **ymfalchïo yn niwylliant a thraddodiadau Cymru**. Mae pob disgybl yn cael cyfle i ddysgu am hanes a diwylliant Cymru gan werthfawrogi digwyddiadau'r gorffennol a'r presennol yn unol â Chwricwlwm i Gymru.


Mae gan staff **ddyheadau uchel** ar gyfer defnydd dysgwyr o'r Gymraeg ac maent yn cynllunio ystod o brofiadau cyfoethog ac effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae ystod eang o gyfleoedd a chamau gweithredu yn sicrhau bod gan bron bob dysgwr hyder ieithyddol cynyddol a'u bod wedi dod yn uchelgeisiol ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o ffurfiau a lleoliadau.

Cymraeg yw'r **brif iaith a glywir o fewn yr ysgol ac ar yr iard**. Mae gweithredoedd wedi cael **effaith gadarnhaol** er mwyn sicrhau bod mwyafrif y dysgwyr yn dewis gwneud **defnydd helaeth o'r Gymraeg yn ystod amser hamdden** e.e. dewis defnyddio apiau, teledu, cerddoriaeth, chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol ayyb.

Mae'r ysgol wedi creu **partneriaeth effeithiol gyda'r gymuned** er mwyn dathlu llwyddiannau ac annog y defnydd o'r Gymraeg gan eraill e.e. busnesau, grwpiau.

Mae **arferion effeithiol wedi'u gwreiddio**.

Wrth lwyddo i gyrraedd y wobr aur rydych yn derbyn yr anrhydedd o fod yn **ysgol arweiniol** gan **rannu eich arfer dda ar lefel lleol a chenedlaethol** gan sefydlu a chynnal partneriaethau.



# Cynllun Gweithredu

| **Deilliant 1: Arweinyddiaeth strategol yn cael ei ddangos ar lefel ysgol gyfan** | |
|---|---|
| Uwch dîm arwain yn dangos ymrwymiad clir i ddatblygu'r Gymraeg a Chymreictod ar lefel ysgol gyfan. | |
| Llywodraethwyr yn sicrhau bod y Siarter Iaith yn ffocws ganolog o fewn cynlluniau'r ysgol ac yn cefnogi'r gweithredu. | |
| Holl weithlu'r ysgol yn deall nod ac amcanion y Siarter Iaith a'u rôl i gefnogi'r gweithredu. | |
| Tîm Arweinyddiaeth, staff, llywodraethwyr ac ystyriaethau clwstwr | • Sicrhau agwedd gadarnhaol ymysg yr uwch dîm rheoli tuag at yr iaith e.e. drwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth iaith a chynnal cyfarfod staff i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ofynion fframwaith y Siarter Iaith.<br>• Sicrhau bod llywodraethwr dynodedig yn gyfrifol am y Siarter Iaith.<br>• Sicrhau fod cynllunio gofalus i'w weld yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn a thu allan i'r ysgol.<br>• Tîm Arweinyddiaeth yn sicrhau bod pob dysgwr yn llenwi holiadur Siarter Iaith ddwywaith y flwyddyn i osod gwaelodlin ac ysgrifennu cynllun gweithredu.<br>• Gwneud copïau o'r Gwe Iaith i'w harddangos ymhob dosbarth / yn yr ysgol. Rhoi'r cyfle i'r dysgwyr ddadansoddi a thrafod y data a chynnig sylwadau a syniadau i'r Criw Cymraeg. Sicrhau bod cyfle i bob plentyn i gyfrannu at gynllun gweithredu'r ysgol e.e. bocs syniadau ymhob dosbarth.<br>• Sicrhau bod y Criw Cymraeg a'r holl rhanddeiliaid eraill yn cyfrannu at ysgrifennu cynllun gweithredu y Siarter Iaith.<br>• Gweithio ar y cyd â'r Criw Cymraeg i benderfynu ar dargedau a cherrig milltir i'w trafod a'u harddangos ar gyfer gweddill yr ysgol.<br>• Sicrhau bod y Criw Cymraeg a'r holl rhanddeiliaid yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro'r cynllun gweithredu a phenderfynu ar y camau nesaf. |

<table>
<tr><td></td><td>

- Tîm Arweinyddiaeth yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i’r Criw Cymraeg gysylltu â grwpiau ysgol eraill i sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol e.e. cynrychioli’r Criw Cymraeg ar y Cyngor Ysgol.
- Sicrhau bod y Criw Cymraeg yn weithgar ac yn uchelgeisiol; yn arwain amrywiaeth o fentrau Cymraeg sy'n cael effaith gadarnhaol ar amcanion cynradd y Siarter Iaith gan gynnwys defnydd cynyddol o’r Gymraeg y tu fewn a thu allan i’r ystafell ddosbarth.
- Staff yn rhannu ffeithiau sy'n hybu amcanion y siarter e.e. hoff gân Cymraeg, hoff raglen ar S4C, hoff lyfr Cymraeg ac ati ar ddrws eu dosbarth, ar dudalen 'Dewch i gwrdd â'r staff’ ar wefan yr ysgol neu drwy bostio'n rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol yr ysgol.
- Staff i ddefnyddio a hyrwyddo meddalwedd Cymraeg e.e defnyddio HWB, Teams a Gwgl yn Gymraeg.
- Trefnu bod y Cyngor Cymraeg yn weledol e.e bathodynnau, siwmperi i'r aelodau.
- Cydlynydd y Siarter i sicrhau bod agenda i bob cyfarfod Cyngor Cymraeg a bod trefniant i'r aelodau rannu syniadau wrth bob dosbarth. Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o bob cyfarfod.
- Staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd er mwyn rhannu arfer dda e.e gweithio ysgol i ysgol, ar lefel sirol a rhanbarthol.

**<u>Ystyriaethau clwstwr</u>**

- Siarter Iaith yn bwynt trafod ar agenda cyfarfodydd clwstwr.
- Holl gynghorau ysgolion y clwstwr yn cwrdd i rannu arfer dda ac i gael hyfforddiant pwrpasol.
- Cynnal gweithgareddau rheolaidd fel clwstwr i fwynhau ac i ddathlu llwyddiant e.e seremonïau wobrwyo, Ffair Gymreig, gig yn y castell, picnic yn y parc ac ati.

</td></tr>
<tr><td colspan="2">Holl ddysgwyr yr ysgol yn deall pwrpas a phwysigrwydd y Siarter Iaith a’u rôl i gefnogi’r gweithredu.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Rhieni/gofalwyr a chymuned ehangach yr ysgol yn deall pwrpas a phwysigrwydd y Siarter Iaith a’u rôl i gefnogi’r gweithredu.</td></tr>
<tr><td>Cydlynydd Siarter a'r Cyngor Cymraeg</td><td>

- Ymgeiswyr Cyngor Cymraeg yn ysgrifennu llythyr cais neu yn rhoi araith i'r dosbarth / ysgol yn sôn pam y dylent gael eu dewis a syniadau i wireddu'r Siarter yn yr ysgol.
- Cyngor Cymraeg yn dadansoddi'r gwe iaith ac yn cynllunio targedau a gweithgareddau pwrpasol i gael effaith yn y meysydd targed.
- Cyngor Cymraeg i gasglu syniadau wrth eu cymheiriaid ar sut i wireddu'r siarter er mwyn bwydo mewn i'r

</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | cynllun gweithredu.<br>• Cyngor Cymraeg i gyflwyno targedau'r Siarter sy'n deillio o'r cynllun gweithredu i weddill yr ysgol mewn gwasanaeth<br>• Cyngor Cymraeg i greu arddangosfa mewn man canolog. Sicrhau bod yr arddangosfa yn cael ei ddiweddaru a gosod heriau a gwybodaeth e.e cân / idiom / band yr wythnos arno.<br>• Gwneud posteri allan o’r targedau a'u rhoi i fyny o gwmpas yr ysgol a’u dosbarthu nhw i rieni.<br>• Cyngor Cymraeg i gyflwyno eu targedau i'r llywodraethwyr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac adrodd nôl ar ddiwedd y flwyddyn yn sôn am fesur effaith drwy PwyntPwer / fideo / sgwrs / cyflwyniad.<br>• Cyngor Cymraeg i greu pamffled neu fideo i hyrwyddo'r Siarter a'u rôl nhw fel llysgenhadon. Rhannu'r pamffled / fideo gyda rhieni, ar gyfryngau cymdeithasol, gydag ysgolion eraill.<br>• Trefnu cyflwyniadau i rieni yn amlinellu gweledigaeth a thargedau’r ysgol.<br>• Cyngor Cymraeg i rannu eu gweledigaeth â rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach drwy gyfrwng fideo ar gyfryngau cymdeithasol, gwefan yr ysgol, papurau bro, papurau lleol, grwpiau lleol ac ati.<br>• Cyngor Cymraeg i adrodd yn rheolaidd ar ddatblygiadau'r Siarter Iaith yng nghylchlythyr / neu ar gyfryngau cymdeithasol / gwefan yr ysgol.<br>• Cynnig arweiniad, trafod dulliau gan rannu gwybodaeth gyda rhieni am y gwahanol ffyrdd o gefnogi nod y Siarter Iaith. |

| | |
|---|---|
| Dysgwyr | • Dosbarthiadau yn dadansoddi canlyniadau'r holiaduron ac yn gosod cyfres o heriau i'w hunain yn y dosbarth. |

| **Deilliant 2: Dysgwyr yn cymryd perchnogaeth o’r Gymraeg ac yn deall ei pherthnasedd i fywyd bob dydd.** |
|---|
| Dysgwyr yn annog a chefnogi ei gilydd i gymryd cyfrifoldeb dros yr iaith. |
| Dysgwyr yn cael cyfle i drafod yr iaith a’i pherthnasedd i fywyd bob dydd. |
| Gweithlu’r ysgol yn gallu trin a thrafod yr iaith gyda dysgwyr. |

| Cyfarwyddyd yn cael ei roi i’r Cyngor Ysgol neu’r criw sy’n arwain y Siarter Iaith ar sut i drin a thrafod yr iaith a rhoi arweiniad i’w cyd-ddysgwyr. | |
|---|---|
| Tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethwyr Ysgolion | • Tîm Arweinyddiaeth wedi sefydlu diwylliant yn yr ysgol lle mae dysgwyr yn ymfalchïo yn yr iaith ac yn gallu trafod manteision siarad Cymraeg ac amlieithrwydd yn hyderus.<br>• Tîm Arweinyddiaeth yn sicrhau cynllunio cadarn a strategol fel bod dysgwyr yn cael cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i archwilio a dadansoddi sut mae ieithoedd yn effeithio ar hunaniaeth a diwylliant a deall bod eu dysgu yn cynnig gwell cyfleoedd yng Nghymru ac mewn cyd-destunau rhyngwladol.<br>• Tîm Arweinyddiaeth yn gweithio gyda'r staff i sicrhau cynllunio strategol i weu storiau Cymru i gwricwlwm yr ysgol e.e Mari Jones a'r Beibl, Yr Welsh Not, Brad y Llyfrau Gleision ayyb.<br>• Cynnal cyfarfod cychwynnol gyda'r Criw Cymraeg etholedig yn sôn am bwysigrwydd eu rôl a sut i annog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda'u cymheiriaid.<br>• Darparu pecyn cychwyn ysgol i rieni a gofalwyr yn sôn am bwysigrwydd Cymreictod / addysg cyfrwng Cymraeg.<br>• Sicrhau bod Cymreictod a'r Siarter Iaith yn cael sylw yn y llythyr dechrau'r flwyddyn ysgol newydd.<br>• Sicrhau bod y Siarter Iaith yn cael sylw yng nghylchlythyron a chyfryngau cymdeithasol yr ysgol yn rheolaidd. • Sicrhau bod ethos Gymraeg i’r ysgol gan ddatblygu pob cyfle i ennyn disgyblion i ymfalchïo yn yr Iaith ac i hybu’r treftadaeth a’r diwylliant Cymreig (traddodiadol a chyfoes) ym mhob haen o fywyd yr ysgol.<br>• Ymbweru, gwella hyder a chefnogi’r holl staff i ymdrin â sefyllfaoedd ieithyddol gwahanol gan eu harfogi i ddatblygu dulliau a chyfleoedd i annog defnydd o’r Gymraeg.<br><br>**<u>Ystyriaethau clwstwr:</u>**<br>• Ysgolion clwstwr yn dechrau gweithio mewn partneriaeth i drefnu gweithgareddau sy'n trafod yr iaith e.e ffair iaith / gwahodd unigolion neu fusnesau sy'n gwneud defnydd effeithiol o'r Gymraeg. |

| | |
|---|---|
| Staff | • Cynllunio cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr o fewn y meysydd dysgu i drafod y Gymraeg a Chymreictod fel bod disgyblion yn deall eu perthnasedd i fywyd bob dydd e.e trafod cynnyrch Cymreig, hysbysebu gan ddefnyddio'r iaith, tynnu sylw at siaradwyr Cymraeg, cyfleoedd gwaith, buddion ac ati. Sicrhau bod cyfleoedd i drafod yr iaith yn cael eu gweu yn naturiol i mewn i weithgareddau'r dosbarth er mwyn arfogi dysgwyr fel dinasyddion Cymru ddwyieithog mewn byd amlieithog.<br>• Cynlluniau gwaith i gynnwys unedau o waith ar Gymru a Chymreictod.<br>• Staff a dysgwyr yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau fel llinynnau trafod a dysgu am hanes y Gymraeg e.e. adnoddau HWB 'Ein hiaith' <https://hwb.gov.wales/repository/resource/91cc6904-8b3e-419a-bc5f 5294ea233a06> , sioe Taith yr Iaith gan Mewn Cymeriad<br>• Gwahodd siaradwyr gwadd yn rheolaidd e.e. enwogion / pobl fusnes / cyngor / cyn-ddisgyblion / cynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd ac ati, i drafod sut mae'r Gymraeg yn berthnasol yn eu bywydau bob dydd.<br>• Hyrwyddo pencampwyr Cymru e.e. timau rygbi a phêl-droed Cymru, athletwyr unigol, artistiaid ac ati.<br>• Manteisio ar gyfloed posib i drafod hanesion a stori Cymru e.e trafod Hedd Wyn wrth astudio'r rhyfel.<br>• Gwahodd unigolion / busnesau sy'n defnyddio / hyrwyddo'r Gymraeg wrth ystyried ymwelwyr.<br>• Gwahodd siop Gymraeg leol i werthu / hyrwyddo nwyddau mewn digwyddiadau. |

| | |
|---|---|
| Cydlynydd a'r Cyngor Cymraeg | • Mae'r Cyngor Cymraeg yn gwneud defnydd effeithiol o'r hyfforddiant a ddarparwyd ac maent yn gyfrifol am ystod eang o fentrau sy'n eu galluogi i gymryd perchnogaeth o'r Gymraeg a hyrwyddo'r iaith yn weithredol ymhlith eu cyfoedion.<br>• Cyngor Cymraeg yn arwain gwasanaethau wythnosol sydd yn gyfle i drafod amcanion y Siarter e.e. gellir dewis arwr / arwres yr wythnos, stori o Gymru, busnes Cymraeg yr wythnos ac ati.<br>• Cyngor Cymraeg yn cyflwyno gwasanaethau i nodi dyddiadau arbennig yng nghalendr Cymru e.e Diwrnod T.Llew Jones, Diwrnod Waldo, Diwrnod Owain Glyndŵr, Diwrnod Gwenllian ac ati.<br>• Cyngor Cymraeg i drefnu digwyddiadau dathlu e.e Dydd Miwsig Cymru, Diwrnod Shwmae, Santes Dwynwen<br>• Cyngor Cymraeg i gydweithio â busnesau lleol i'w hannog nhw i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Gellir sicrhau bod y busnes yn rhan o gynllun siopa lle mae disgyblion yn defnyddio cerdyn teyrngarwch wrth siopa yn Gymraeg ac wrth gasglu 10 stamp yn ennill gwobr wrth y Cyngor Cymraeg.<br>• Annog eu cyfoedion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson gan fod yn lysgennad i'r iaith. |

| |
|---|
| **Deilliant 3: Ysgolion yn annog defnydd dysgwyr o'r iaith y tu allan i'r dosbarth ac yn cynnig profiadau Cymraeg a Chymreig ar draws y cwricwlwm.** |
| **Dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol yn yr ysgol.** |

| Gweithlu'r ysgol yn annog defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. | |
|---|---|
| Dysgwyr/Criw Cymraeg/llysgenhadon iaith Gymraeg yn annog eu cyd-ddysgwyr i ddefnyddio mwy o Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. | |
| Tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethwyr Ysgolion | • Tîm Arweinyddiaeth yn sicrhau bod amrywiaeth o weithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael mewn clybiau amser cinio neu ar ôl ysgol.<br>• Ysgol yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr fynychu digwyddiadau chwaraeon Cenedlaethol i gefnogi timau ac unigolion Cymreig.<br>• Cynllunio system wobrwyo ar lefel ysgol i annog defnydd cyson o'r Gymraeg a gwobrwyo unigolion sy'n lysgenhadon dros yr iaith e.e Cymro / Cymraes yr wythnos, Bwrdd amser cinio – Ar ddiwedd yr wythnos, gwobrwyo plant sydd wedi ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg i gael bwyta ar fwrdd arbennig. Gwahodd unigolion o'r gymuned mewn i gynnal sgwrs gyda'r plant hyn adeg cinio, e.e. pobl busnes, llywodraethwyr, Clwb Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr, pregethwyr, aelodau chweched dosbarth ac ati.<br>• Gwneud defnydd o system bydis lle mae'r plant hynaf yn cefnogi plant ifancach e.e. Bydis darllen, chwarae gemau ayb<br>• Ysgol yn hybu cerddoriaeth Gymraeg ar lefel ysgol e.e., sefydlu Gorsaf Radio Gymraeg, chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn y dderbynfa a'r coridorau, yn ystod gwasanaethau ac ati.<br>• Hyrwyddo a gwneud defnydd o restr chwarae cerddoriaeth Gymraeg misol y Siarter Iaith ar BBC sounds. • Creu podlediad Cymraeg tymhorol sy'n cael ei rannu gyda chymuned yr ysgol.<br>• Creu cylchlythyr wythnosol i'r ysgol a'r gymuned.<br>• Llysgenhadon Chwaraeon yn yr ysgol, yn cynnal sesiynau yn y Gymraeg yn wythnosol.<br>• Cysylltu ag ysgol gyfagos ar Teams i lunio cwis rhwng dosbarthiadau ar enwogion Cymru.<br>• Mae'r ysgol yn dathlu ei llwyddiannau yn y Gymraeg yn rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol ac mewn papurau newydd lleol.<br><br>**<u>Ystyriaethau clwstwr:</u>**<br>• Cynnal mabolgampau/Gemau Olympaidd Cymraeg clwstwr. |
| Staff | • Clwb brecwast - rhaglenni CYW ar y bwrdd gwyn, cerddoriaeth Gymraeg yn y cefndir, gemau bwrdd Cymraeg i'w chwarae, system bydis - plant hynaf yn chwarae gyda phlant ifancach.<br>• Creu calendr dosbarth o ddigwyddiadau sy'n ffocysu ar ddigwyddiadau a gweithgareddau allgyrsiol er mwyn hybu dysgwyr i'w mynychu.<br>• Sicrhau bod diwrnodau arwyddocaol Cymreig yn cael eu dathlu yn ystod y flwyddyn.<br>• Sialens Seren a Sbarc wythnosol – e.e gwylio rhaglen Gymraeg benodol, darllen hanes, gwrando ar hoff gân Gymraeg, siopa yn y Gymraeg ac ati.<br>• Cynllunio Cwis yr Wythnos er mwyn datblygu dealltwriaeth y dysgwyr mewn gwahanol feysydd e.e datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o wahanol agweddau o Gymru a'r ardal leol, datblygu dealltwriaeth o enwogion o Gymru, cerddoriaeth Cymraeg, rhaglenni Cymraeg ac ati. |

| | |
|---|---|
| | • Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu sgiliau llafar e.e heriau Adobe Creative Cloud, Flipgrid, podlediadau ac ati mewn heriau gwaith cartref sy'n gysylltiedig ag amcanion y Siarter Iaith.<br>• Prosiect animeiddio: Trefnu gweithdai i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o chwedlau a storïau o Gymru e.e. Madog, Dewi, Blodeuwedd, Dwynwen a.y.y.b. |

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymraeg | • Cyngor Cymraeg yn cymryd perchnogaeth o'r hyn sydd angen blaenoriaethu e.e rhoi pot o arian iddynt i drefnu ymgyrch.<br>• Cyngor Cymraeg yn monitro plant sydd yn defnyddio'r Gymraeg ac yn adrodd nôl adeg cyfarfodydd Cyngor Cymraeg - annog plant i ddefnyddio'r Gymraeg yn hytrach na chosbi os ydynt yn defnyddio Saesneg. Creu holiadur o ran pam maen nhw yn meddwl bod y Gymraeg yn bwysig.<br>• Trefnu calendr o weithgareddau wythnosol gan sicrhau aelod o'r Cyngor Cymraeg i'w harwain e.e Dydd Llun - arwain gemau buarth gyda'r Cyfnod Sylfaen, Dydd Mercher - Cwis Mawr yr wythnos, Dydd Gwener - DJ's Dydd Gwener (disgo ar yr iard lle mae cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei chwarae ar uchelseinydd).<br>• Cyngor Cymraeg i ofalu bod cerddoriaeth Gymraeg i'w chlywed yn yr ysgol / ar y buarth a theledu yn ystod amser chwarae gwlyb.<br>• Cydweithio â'r staff i roi swigod siarad yn y neuadd ar gyfer defnyddio termau/cystrawennau cywir.<br>• Sicrhau bod termau a syniadau o gemau o gwmpas yr iard – Dylunio a chreu arwyddion proffesiynol ar gyfer y tu allan gan ddefnyddio cwmni dylunio. |
| Dysgwyr | • Siop ffrwythau. Sicrhau cyfleoedd i ddysgwyr i brynu a gwerthu mewn sefyllfaoedd go-iawn.<br>• Plant i gael 'Partneriaid Parablu' neu 'Bydis Siarad' - cyfle i rannu sgwrs yn y Gymraeg - cyfle i gael cymorth wrth ddysgu yn y Gymraeg. Hwyrddyfodiaid i roi tystysgrif i'r 'Partneriaid' am eu helpu. |

| |
|---|
| **Y gweithlu yn sicrhau defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm gan gynnwys ysgolion dwyieithog.** |

| | |
|---|---|
| Tîm Arweinyddiaeth, Staff a Llywodraethwyr Ysgolion | • Mae gan staff ddyheadau uchel ar gyfer defnydd dysgwyr o'r Gymraeg ac maent yn cynllunio ystod o brofiadau cyfannol ac effeithiol ar draws y cwricwlwm fel bod dysgwyr yn dod yn uchelgeisiol ac yn gallu defnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o ffurfiau a lleoliadau.<br>• Mae staff wedi creu ystod o adnoddau pwrpasol i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm. Rhennir adnoddau mewn prif faes e.e. SharePoint ar-lein<br>• Gwylio rhaglenni fel 'Mabinogi ogi', rhaglenni ffeithiol e.e natur gydag Iolo, coginio gyda Bryn ac ati i atgyfnerthu'r dysgu yn y meysydd dysgu a phrofiad.<br>• Defnyddio caneuon Cymraeg i amseru tasgau e.e pwt o 1 funud o gân Gymraeg i orffen tasg.<br>• Gwneud defnydd o glipiau fideo ac erthyglau o bapurau newydd a phapurau bro i atgyfnerthu'r dysgu ac addysgu.<br>• Sicrhau cyfleoedd ysgrifennu at bwrpas e.e Coginio yn y Babanod a chreu Llyfryn Rysáit Bwyd Cymraeg, neu ysgrifennu llyfr am Helyntion Seren a Sbarc yn yr ardal a'u gwerthu drwy gael nawdd wrth fusnes lleol.<br>**Ystyriaethau clwstwr:**<br>• Cydweithio cadarn gyda rhyngddeiliaid- Clybiau, adnoddau, gweithgareddau a digwyddiadau yn cael eu trefnu ar y cyd gyda chlystyrau / teuluoedd. |
| Tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethwyr Ysgolion | • Defnyddio asiantaethau allanol e.e Mewn Cymeriad, Theatr Arad Goch ayyb i gyflwyno amrywiaeth o brofiadau. |
| Staff | • Gwylio Cyw/Stwnsh adeg Clwb Brecwast.<br>• Cynnal Noson Sinema – gwylio DVDs Cymraeg – Sion Blewyn Coch, Tân ar y Comin, C'mon Midffild, Nyth Cacwn.<br>• Sefydlu arferiad e.e Noson byjamas ffilm a stori cyn gwely tymhorol.<br>• Picnic blynyddol Seren a Sbarc ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen.<br>• Cynnal gweithdy sut i ffrydio / dod o hyd i fiwsig Cymraeg.<br>• Integreiddio caneuon traddodiadol a modern i'r sioeau Nadolig yn flynyddol. |

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymraeg | • Disgyblion i gymryd cyfrifoldeb i gynorthwyo i drefnu ac hyrwyddo y gweithgareddau e.e i ddewis testunau e.e. beirniadu yn ystod Eisteddfod. |

| Deilliant 4: Gweithlu'r ysgol yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg ac yn defnyddio’r Gymraeg gyda’i gilydd a gyda’r dysgwyr. | |
|---|---|
| Cynllun datblygu’r ysgol yn cynnwys ymrwymiad clir i ddatblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu. | |
| Gweithlu’r ysgol yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, yn unol â’r safonau proffesiynol. | |
| Dysgwyr yn cynorthwyo gweithlu ehangach yr ysgol i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg. | |
| Tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethwyr Ysgolion | • Mae'r Cynllun Datblygu Ysgol yn cynnwys ymrwymiad clir a chynllun strategol i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu.<br>• Cynhelir awdit rheolaidd o sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu i sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol yn cael eu cynllunio'n strategol.<br>• Hyrwyddo cyrsiau iaith fel bod staff yn ymwybodol o gyfleoedd i loywi eu Cymraeg<br>• Mae staff yn cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol parhaus i sicrhau bod eu harferion iaith a methodoleg yn cael eu datblygu'n gyfredol e.e gan ddefnyddio ymchwil, cyrsiau sabothol, cyrsiau hyfforddi ac ati. • Defnyddir rheoli perfformiad i drafod anghenion hyfforddiant hyfedredd Cymraeg.<br>**Ystyriaethau clwstwr:**<br>• Chwilio am gyfleoedd i ddarparu hyfforddiant iaith / methodoleg bwrpasol ar lefel clwstwr |

| | |
|---|---|
| Staff | • Mae'r staff yn ymwybodol o ofynion iaith Gymraeg y Safonau Proffesiynol, ac maent yn myfyrio gyda'i gilydd ar sut i wneud eu dysgu eu hunain yn fwy pwerus.<br>• Defnyddir ffynonellau tystiolaeth ymchwil ar addysgu Cymraeg yn hawdd gan staff i wella eu harfer. |
| Cyngor Cymraeg | • Mae'r Cyngor Cymraeg yn cynllunio ac yn darparu hyfforddiant i grwpiau penodol e.e. staff cinio, clybiau gwaith cartref gyda rhieni. Creu fideos dysgu disglair - annog a dysgu sgiliau iaith i rieni/ aelodau o'r gymuned. |

| | |
|---|---|
| **Deilliant 5: Gweithio mewn partneriaeth â chymuned ehangach yr ysgol i gefnogi defnydd dysgwyr o'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol.** | |
| **Arweiniad yn cael ei roi i ddysgwyr ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith tu hwnt i'r ysgol.** | |
| **Arweiniad i rieni/gofalwyr er mwyn eu hannog i gefnogi defnydd iaith eu plant y tu allan i'r ysgol.** | |
| Tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethwyr Ysgolion | • Darparu gwybodaeth a chefnogaeth gyson i rieni a gofalwyr ar sut i gefnogi defnydd iaith y plant tu allan i'r ysgol e.e llyfryn i rieni newydd, trefnu nosweithiau gwybodaeth, cynnal gweithgareddau gan wahodd y rhieni.<br>• Rhieni yn derbyn gohebiaeth ynglŷn â manteision dwyieithrwydd a'r Gymraeg yn gyson.<br>• Cynnal noson dwyieithrwydd i rieni - gwahodd mudiadau gwahanol - Dysgu Cymraeg i hyrwyddo gwersi Cymraeg i oedolion, dysgwyr i rannu eu profiadau, Swyddog Cymraeg i blant, busnesau lleol yn egluro pam bod dwyieithrwydd yn bwysig.<br>• Datblygu partneriaeth waith effeithiol ag asiantaethau e.e. yr Urdd, Menter Iaith, Mudiad Meithrin lleol, Prifysgolion, Ysgolion Uwchradd, Clystyrau, Llyfrgelloedd, Y Gymuned, Ffermwyr Ifanc ayyb i hyrwyddo a darparu cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r dosbarth.<br>• Sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau allgyrsiol cyfredol drwy gyfrwng y Gymraeg sydd ar gael yn cael eu rhannu gyda'r holl ddysgwyr, rhieni, a gofalwyr e.e. mewn gwasanaethau, cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau ac ati.<br>• Sicrhau bod yr ysgol yn cymryd rhan mewn cystadlaethau a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg e.e ○ Cymryd rhan yn flynyddol yng nghystadlaethau llwyfan a/neu lenyddol Eisteddfod yr Urdd i ddysgwyr. ○ Cymryd rhan yn |

| | |
|---|---|
| | flynyddol yng ngweithgareddau chwaraeon yr Urdd.<br>Trefnu tripiau i wersylloedd yr Urdd e.e. Glan-llyn, Llangrannog, Caerdydd ayyb.<br>• Gohebiaeth yn ymwneud â'r Gymraeg gan gynnwys gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg i oedolion, yn cael eu rhannu gyda rhieni yn gyson.<br>• Cynnig cyfleoedd i rieni a gofalwyr i ddysgu Cymraeg. Darparu gofal plant er mwyn rhyddhau'r rhieni er mwyn iddynt allu mynychu'r cwrs dysgu Cymraeg .<br>• Gwahodd rhieni a staff ychwanegol (gyrrwr bysiau'r ysgol, glanhawraig) sydd yn dysgu Cymraeg neu sydd am ddysgu Cymraeg unwaith bob mis am brynhawn i gynnal sgwrs gyda grŵp o blant.<br>• Cydweithio ag asiantaethau allanol i gynnig neu hyrwyddo darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y gwyliau. **<u>Ystyriaethau clwstwr:</u>**<br>• Gweithio gydag asiantaethau neu gymuned ehangach yr ysgol i drefnu gweithgareddau a digwyddiadau ar lefel clwstwr. |

| | |
|---|---|
| Staff | • Annog dysgwyr i wylio rhaglenni teledu Cymraeg fel rhan o waith cartref er mwyn eu trafod.<br>• Hybu Band y Mis, Artist y mis, Llyfr y mis, Idiom y mis. Lluniau llafar i drafod.<br>• Gosod heriau Seren a Sbarc wythnosol yn hybu'r disgyblion i wylio rhaglenni teledu Cymraeg neu wrando ar gerddoriaeth Gymraeg. Clymu hwn â system wobrwyo.<br>• Cynnig cyfleoedd i ddysgwyr i ysgrifennu at bwrpas e.e erthygl i'r papur bro ayyb<br>• Rhoi pwyslais ar y Gymraeg wrth greu a gwerthu nwyddau ar gyfer gweithgareddau menter.<br>• Cynnig gweithgareddau i ddisgyblion a'u rhieni i wneud ar y cyd yn rhan o'r rhaglen weithredu. |
| Cyngor Cymraeg | • Cyngor Cymraeg yn cyfarfod yn rheolaidd ag asiantaethau a phartneriaid cymunedol i drafod calendr digwyddiadau posibl.<br>• Cydnabod ac ethol aelodau o'r Cyngor Cymraeg i ddod yn llysgenhadon / partner gweithio gydag asiantaethau.<br>• Annog rhieni, gofalwyr a'r gymuned i ddysgu Cymraeg e.e creu arddangosfeydd cymunedol, posteri, cynnal sesiynau blasu ayyb<br>• Annog staff y Ganolfan Hamdden/Siopau lleol i ddefnyddio eu Cymraeg.<br>• Sefydlu llyfrgell benthyg er mwyn i ddysgwyr a'u teuluoedd eu mwynhau adref e.e CDs miwsig Cymraeg, gemau bwrdd, DVD's ac ati. |

| | |
|---|---|
| Dysgwyr | • Mynd â 'Santes Dwynwen i'r dre', Gŵyl Ddewi ayb er mwyn hybu ymwybyddiaeth o'r wŷl honno yn y gymuned.<br>• Radio ysgol dan ofalaeth blwyddyn ysgol.<br>• Creu Papur Newydd neu gomig sydd yn llawn o weithgareddau hwylus, codau QR, newyddion y Cyngor Ysgol ac ati. Dosbarthu i'r siopau lleol.<br>• Cynnal Eisteddfod yr ysgol ar Ddydd Gŵyl Dewi. Yn dilyn yr Eisteddfod y plant i berfformio'r eitemau yn y gymuned leol. • Y Fari Lwyd - Canu yn y pentref (adfer hen arferion Cymreig).<br>• Annog disgyblion i siopa gan ddefnyddio'r Gymraeg. Annog / dysgu busnesau i sylweddoli pwysigrwydd y Gymraeg. Cerdyn teyrngarwch siopa yn y Gymraeg<br>• Cychwyn Grŵp "Cymraeg i bawb". Cynllun sydd yn annog rhieni di-gymraeg ac aelodau o'r gymuned i ddod i'r ysgol i ddysgu geirfa Gymraeg wrth sgwrsio gyda'r plant Defnyddio gwahanol ardaloedd yn y gymuned i ehangu geirfa'r oedolion a'r plant. Bydd y grŵp yn cwrdd dwy waith y tymor. |

| | |
|---|---|
| | • Gosod heriau / gweithgareddau syml i rieni a'r Gymuned e.e. addurno ffenest adeg Gŵyl Ddewi, cystadleuaeth yn Eisteddfod yr Ysgol ... |
| **Anogaeth a chefnogaeth i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg drwy dechnoleg a chyfryngau cymdeithasol.** | |
| Tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethwyr Ysgolion | • Trefnu cyfarfod rhwng y Criw Cymraeg, Cydlynydd TGCh a llywodraethwr cyswllt TGCh yr ysgol er mwyn gweld yr hyn sydd yn bosib ar gyfer cyflwyno technoleg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Cydlynydd TGCh yr ysgol i gyd-weithio gyda'r Criw Cymraeg i greu taflen wybodaeth i'r rhieni. |
| Staff | • Cynllunio gwersi sy'n rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio technoleg, e.e. Flipgrid, iMovie. |
| Cyngor Cymraeg | • Creu posteri dywediad / idiom / band / rhaglen yr wythnos.<br>• Creu podlediadau.<br>• Cynnal gorsaf radio yn yr ysgol. |
| Dysgwyr | • Plant hynaf yn gweithio gyda'r plant lleiaf er mwyn dangos apiau a sut maent yn gweithio. Cyfarwyddiadau i lawrlwytho'r ap yn mynd adref gyda'r plant.<br>• Disgyblion i drefnu clwb TGCh yn cyflwyno gwahanol apiau. |
| Ystyriaethau clwstwr | • Disgyblion yn defnyddio rhaglenni megis Teams i gysylltu ag ysgolion o fewn y clystyrau. Rhannu gwybodaeth am eu hardal leol. |

| Holl gymuned yr ysgol a phartneriaid cymunedol yn cynllunio a chydweithio i gynnig gweithgareddau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol. | |
|---|---|
| Tîm Arweinyddiaeth a Llywodraethwyr Ysgolion | • Trefnu teithiau sy'n hybu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant, e.e., amgueddfeydd, sioeau, digwyddiadau chwaraeon ac ati i ddatblygu defnydd a mwynhad disgyblion o'r Gymraeg. |
| Staff | • Cadw llygad ar ddigwyddiadau lleol er mwyn achub ar gyfleoedd i gyd-weithio a defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. |
| Cyngor Cymraeg | • Casglu syniadau gan ddisgyblion am weithgareddau.<br>• Gofyn i'r llywodraethwyr / Cynghorau Cymuned lleol / Pwyllgorau Pentref am gyfleoedd i gyd-weithio. |
| Dysgwyr | • Cyfleodd i rannu syniadau yn gyson. |
| Ystyriaethau clwstwr | • Digwyddiadau ar y cyd, e.e. gigiau, mabolgampau. |